



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu am ei drafodaeth ar y ddeiseb 'Pride in Barry'

Cefndir

1. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau at y Pwyllgor Menter y Dysgu ar 7 Mai 2008 yn awgrymu y gallai'r Pwyllgor ystyried defnyddio arian Llywodraeth y Cynulliad i adfywio'r Barri. Ar 3 Gorffennaf 2008, trafododd y pwyllgor bapur yn gosod allan sut i ymdrin â nifer o ddeisebau a gyflwynwyd i'r pwyllgor yn ffurfiol neu a gyfeiriwyd ato i'w trafod ymhellach. Cytunodd yr Aelodau'n unfrydol y dylai'r Pwyllgor gynnal gwrandawriad ffurfiol yn y Barri cyn gynted â phosibl yn ystod tymor yr hydref i archwilio'r materion a gaiff eu codi yn y ddeiseb ac i estyn gwahoddiad i'r deisebwyr, Cyngor Sir Bro Morgannwg a Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi tystiolaeth. Mae copi o'r ddeiseb ynghlwm yn Atodiad 1.
2. Cyfarfu'r Pwyllgor Menter a Dysgu yn Neuadd Goffa'r Barri ar 8 Hydref 2008 a chafodd dystiolaeth gan "Pride in Barry" a Chyngor Sir Bro Morgannwg. Cynhaliwyd sesiwn meicroffon agored hefyd. Cynhaliodd y Pwyllgor wrandawriad ffurfiol arall yn y Senedd ar 5 Tachwedd 2008 i graffu ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Prif Ddeisebwr. Paratowyd memoranda ysgrifenedig gan bawb a gyfrannodd at y ddau gyfarfod, ac mae lincs i'r rhain ynghlwm yn Atodiad 2. Cafwyd cyflwyniad PowerPoint hefyd gan "Pride in Barry" yn y cyfarfod ar 8 Hydref. Mae copïau caled o'r cyflwyniad ar gael gan Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor. Mae lincs i'r trawsgrifiadau o'r dystiolaeth lafar yn Atodiad 3. Mae gohebiaeth sy'n berthnasol i'n trafodaethau ar y ddeiseb ynghlwm yn Atodiad 4.
3. Mae'r adroddiad yn dilyn yn crynhoi'r prif faterion a drafodwyd ac yn cynnig argymhellion. Hoffem ddiolch i "Pride in Barry," Cyngor Bro Morgannwg, y Dirprwy Lywydd a'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio am ein cynorthwyo gyda'r ymchwiliad. **Mae crynodeb o'r argymhellion ar dudalen 8.**

Cyflwyniad – democratiaeth ar waith

4. Rydym yn falch o'r cyfle hwn i ategu'r broses ddemocrataidd yng Nghymru drwy drafod y ddeiseb "Pride in Barry" ac i gadarnhau'n hymrwymiad i broses ddeisebau'r Cynulliad. Credwn fod y broses o drafod materion sy'n codi'n uniongyrchol mewn cymunedau, ac sydd ag arwyddocâd strategol i Gymru gyfan, fel adfywio cynaliadwy, yn rhan allweddol o'n rôl fel Aelodau'r Cynulliad. Cafodd arwyddocâd ein gwaith ei gydnabod gan y Prif Ddeisebwr:

...mae'n rhaid i ni ddweud 'Diolch yn fawr iawn' am broses sy'n caniatáu i grwpiau cymunedol bach, fel ein grŵp ni, greu cryn dipyn o swm, a gwyddom i ni lwyddo yn hynny o beth drwy gyfrwng y broses hon. Hyd yn oed os na wnewch chi unrhyw argymhellion, gwyddom ein bod wedi tynnu'ch sylw at anghenion a phroblemau sy'n gysylltiedig â'r Barri gan wneud hynny mewn llais uchel yn yr adeilad hwn. O'n herwydd ni, mae dau Weinidog wedi dod yma heddiw i ateb cwestiynau am y materion hyn ac i gydnabod eu pwysigrwydd. Mae hynny, ynddo'i hun, yn fuddugoliaeth i ni.¹

"Pride in Barry"

5. Sefydlwyd "Pride in Barry" ym 1994 fel ymateb i bartneriaeth Barry Action, a sefydlwyd gan Associated British Ports (ABP), Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) a Chyngor Bro Morgannwg (y Cyngor). Cymdeithas anwleidyddol yw hon o dros 40 o gyrff gwirfoddol, awdurdodau ac unigolion, sy'n gweithio i wella'r amgylchedd lleol. Nid oes ganddo'i gyllid ei hun. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth ddinesig; hyrwyddo mentrau sy'n gwella'r amgylchedd ac ennyn balchder yn y Barri. Mae wedi sefydlu cynlluniau gwobrwyo a rhaglen hyrwyddwyr i ennyn diddordeb pobl y dref, ac mae hefyd wedi ymgymryd â'r gwaith o gynrychioli pobl y Barri drwy weithredu fel corff gwarchod i sicrhau bod y dref yn ffynnu yn y dyfodol. Dros y pedair blynedd diwethaf, mae wedi canolbwyntio ar lobïo am ffrwd ariannu i adfywio'r dref.
6. Diben y ddeiseb oedd cyflwyno'r achos o blaid cael 'cyllid priodol i adfywio'r Barri' er mwyn i fwrdd partneriaeth adfywio'r Barri gynllunio ar gyfer adfywio'r dref yn y dyfodol.

Tref y Barri

7. Yn ystod y dystiolaeth, disgrifiwyd y Barri fel un o drefi'r cymoedd, ar lan y môr. Ar hyn o bryd mae ganddi boblogaeth o thua 50,000.

¹ Y Pwyllgor Menter a Dysgu, 5 Tachwedd 2008, Cofnod y Trafodion, para 178.
<http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=105154&ds=11/2008>

Soniodd y deisebwyr am dopograffeg a lleoliad daearyddol y dref gan nodi ei bod yn dref glan môr yng nghefn gwlad Bro Morgannwg.

8. Pwysleisiodd y deisebwyr a'r Cyngor hanes a threftadaeth y Barri fel porthladd a oedd yn allforio glo a'r dirywiad a welwyd yn y dref wrth i'r diwydiant glo grebachu. Credent y gellid cymharu sefyllfa economaidd-gymdeithasol y Barri â sefyllfa trefi tebyg yn y cymoedd.
9. Hoffem nodi ei bod yn anffodus iawn fod arweinwyr cymuned a busnes yn y Barri wedi cael gwybod yn ddiamwys y byddai angen i'r dref gystadlu â rhanbarth Blaenau'r Cymoedd am arian. Mae hyn yn amlwg wedi creu llawer o anniddigrwydd ac ymdeimlad o anghyfiawnder o gofio bod gan y Barri hefyd wardiau sydd ymhlith y gwaethaf o ran y mynegai amddifadedd lluosog ac ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Castleland a Gibbonstown. Cymhlethwyd y sefyllfa ymhellach yn ystod y misoedd diwethaf wrth i swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru gydnabod na fyddai'r dref yn manteisio ar yr elw a wnaed wrth werthu'r 100 erw o dir ar lan y dŵr yn ddiweddar. Yn ei memorandwm ysgrifenedig, eglurodd Llywodraeth Cynulliad Cymru fod trefniadau cyfreithiol yn golygu bod yn rhaid rhannu'r elw a wnaed wrth werthu'r tir ar lan y dŵr yn y Barri rhwng Associated British Ports a'r Llywodraeth, a oedd yn bartneriaid yn y fenter, ar sail cyfanswm y buddsoddiad a wnaed.
10. Rydym yn falch bod gan y Barri fwrdd partneriaeth adfywio, a sefydlwyd ym mis Mawrth 2005, a chynllun strategol gydag amcanion a blaenoriaethau, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2005.
11. Er bod y Barri yn cael ei disgrifio fel un o drefi'r cymoedd ar lan y môr, sylwn fod y dref wedi gwneud yn dda iawn o safbwynt cyllid a'r modd y llwyddwyd i ddenu buddsoddiadau gan y sector preifat. Mae pobl y dref yn ddyledus iawn i'w harweinwyr rhagweithiol ac ymrwymiad eu harweinwyr busnes a chymuned. Nid yw ardaloedd eraill yng Nghymru mor ffodus, ac mae swm yr arian a dynnwyd i lawr o gynllun Amcan 1 er enghraifft, wedi bod yn llawer is nag y gellid ei ddisgwyl mewn ardaloedd fel Merthyr a Rhymni.

Buddsoddiadau a phrosiectau blaenorol

12. Clywsom am y datblygiadau ar roddwyd ar waith eisoes ac am y berthynas waith dda rhwng cyn swyddog prosiect y WDA a'r gymuned. Clywsom mai'r WDA a ddywedodd wrth arweinwyr cymuned y byddai angen £20 miliwn ychwanegol o arian cyhoeddus dros gyfnod o 10 mlynedd i gwblhau'r prosiect adfywio.
13. Mae'r prosiect adfywio wedi'i ysgogi gan tua £50 miliwn o arian cyhoeddus, a lwyddodd o ddenu buddsoddiadau gwerth £100 miliwn o'r sector preifat. Cafodd dros 125 o brosiectau eu cwblhau dros y 10

mlynedd diwethaf, gan gynnwys adennill tir a gwella'r amgylchedd; gwella adeiladau a ffyrdd; a chreu 538 o swyddi parhaol.

14. Rydym yn cydnabod y datblygiadau arwyddocaol hyn a'u heffaith sylweddol ar y dref. Gwelwyd ardal eang o dir diwydiannol diffaith yn cael ei weddnewid. Cafodd y gwaith o ailddatblygu'r llyfrgell, yn benodol, ei ddisgrifio fel 'datblygiad nodedig'. Mae Sgwâr y Brenin, y parc canol a Ffordd Holton hefyd wedi'u gwella'n arw.
15. Bu'r gwaith o ddatblygu'r tir ar lan y dŵr yn ganolog i'r gwaith o adfywio'r dref ac mae'n amlwg i unrhyw ymwelydd. Tanlinellodd y deisebwyr yr arwyddocâd strategol a oedd ynghlwm wrth y gwaith o uno'r dref a'r porthladd.

Ymgysylltu a chyfathrebu

16. Credwn ei bod yn allweddol i Lywodraeth Leol a'r Llywodraeth Genedlaethol ymgysylltu ag arweinwyr a grwpiau cymunedol os yw prosiectau adfywio am lwyddo. Mewn nifer o'n gwrandawiaidau, soniwyd bod ymgysylltu a chyfathrebu rhwng y Llywodraeth ac arweinwyr lleol yn broblem. Roedd yn anodd i'r Pwyllgor ddelio â'r broblem hon gan fod canfyddiadau gwahanol yn gwrthdaro â'n hangen i sicrhau'n bod yn mabwysiadu agwedd amhleidiol tuag at ein gwaith craffu.
17. Siomwyd y deisebwyr a'r Cyngor gan na chawsant eu cynnwys mwy yn adolygiad y Dirprwy Weinidog o'r gwaith adfywio. Roedd yn glir fod yr holl ddyfalu ynglŷn â chanlyniad yr adolygiad - nad oedd, hyd y gallem farnu, wedi'i seilio ar wybodaeth ddibynadwy iawn - wedi tanseilio'r berthynas rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cynulliad Cymru.
18. Rydym yn croesawu'n arw y cyfarfod rhwng y Dirprwy Weinidog dros Adfywio, Prif Weithredwr y Cyngor a "Pride in Barry", sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2008. Roeddem hefyd yn falch o glywed gan Gyfarwyddwr Adfywio Amgylcheddol ac Economaidd y Cyngor fod trafodaethau wedi'u cynnal gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a bod y trafodaethau hynny'n parhau.

Cymharu'r prosiect hwn â phrosiectau adfywio tebyg

19. Roedd y deisebwyr o'r farn fod achos arbennig wedi'i wneud, fe ymddengys, i ailgylchu derbyniadau a gafwyd ar ôl gwerthu tir yn Abertawe a Chasnewydd. Eglurodd memorandwm ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru y prosesau a ganiataodd i Newport Unlimited ailgylchu cronfeydd, ac i greu'r posibilrwydd yn Abertawe i osod buddsoddiad mewn datblygu'r tir yn erbyn y gost o ddatblygu'r safle. Aethom ati i archwilio'r achosion arbennig hyn yn drylwyr yn ein gwrandawriad ffurfiol gyda'r Gweinidogion ond nid oeddem wedi'n hargyhoeddi'n llwyr fod y prosiectau hyn yn wahanol i'r sefyllfa yn y Barri.

20. Fodd bynnag, fe'n hargyhoeddwyd gan dystiolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru na fyddai'n effeithlon, fel rheol, i ailgylchu derbyniadau dim ond yn ardal lle y gwerthwyd yr eiddol.

Rôl y Cyngor

21. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig a llafar, pwysleisiodd y Cyngor yr anawsterau a grëwyd gan yr ansicrwydd ynghylch swm yr arian a oedd ar gael ar gyfer cynllun y bartneriaeth adfywio, sydd wedi'i atal am y tro. Eglurodd y Prif Weithredwr fod ffynonellau ariannu'r Cyngor yn gymharol gyfyngedig ac roedd cydnabyddiaeth gyffredinol fod arian o gytundebau 106 - a fu'n ffynhonnell ariannu ddefnyddiol ar gyfer gwella'r amgylchedd a ffordd yn y gorffennol - yn annhebygol o fod ar gael i'r un graddau yn y dyfodol.

22. Roeddem yn falch o glywed am fframwaith strategol y bartneriaeth adfywio ar gyfer y dref ac ar gyfer y chwe phrif brosiect yn benodol:

- Mynediad i'r Maes Awyr a chysylltiad â'r M4
- Gwella Lein Bro Morgannwg
- Glan y Dŵr, y Barri Cam 2
- Safleoedd ar Ynys y Barri
- Datblygu Marina ar Doc Rhif 1
- Cynllun Gweithredu Canol Tref y Barri (Ffordd Holton)

Mae'r Cyngor wedi penderfynu buddsoddi yn y rhain, ond mae'n cydnabod y bydd angen cyfraniad sylweddol gan y Cynulliad i'w cwblhau. Rydym yn croesawu'r £5.8 miliwn a roddwyd tuag at y ganolfan ddysgu newydd, sy'n fwy na'r cyllid adfywio.

23. Yn ein sesiwn meicroffon agored yn Neuadd Goffa'r Barri, manteisiodd un o'r cynghorwyr lleol ar y cyfle i ddatgan ei fod yn credu bod y Cyngor wedi cymryd camau rhagweithiol i fuddsoddi yn y Barri a'i fod wedi llwyddo i sicrhau bod arian yn cael ei drosglwyddo i gynlluniau newydd.

24. Bu llawer o sôn am lefel a natur y cymorth a roddodd y Cyngor i adfywio'r Barri. Eglurwyd bod y Cyngor wedi buddsoddi £13.5 miliwn.

Arian Ewropeaidd

25. Yn ystod ein gwrandawladau, disgrifiwyd y Barri fel tref Amcan 1, y tu allan i ardal Amcan 1. Roedd yn amlwg fod y deisebwyr yn teimlo bod y dref ar ei cholled oherwydd hynny a'i bod wedi methu cael arian Ewropeaidd, er bod y dref yn cynnwys ardaloedd lle'r oedd angen cymdeithasol amlwg.

26. Mae'r Barri, fodd bynnag, yn rhan o ardal y Rhaglen Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol. Fe'n synnwyd o glywed nad oedd y Cyngor

wedi trafod ceisiadau Cystadleurwydd gyda "Pride in Barry". **Rydym yn argymhell y dylai'r Cyngor ofyn am gyngor gan swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yng nghyswllt paratoi ceisiadau am arian gan y Rhaglen Cystadleurwydd.**

Prosiectau a gofynion ariannu yn y dyfodol

27. Hyd yn hyn, mae llawer o'r arian a fuddsoddwyd yn y Barri wedi'i wario ar y seilwaith. Mae'r deisebwyr yn awr yn gobeithio y bydd llawer o brosiectau sylweddol, gweladwy yn cael eu datblygu e.e. y marina, cyfleusterau hamdden a chyfleusterau eraill ar gyfer y gymuned.
28. Maent yn credu'n gryf y dylid nodi'r ffrwd ariannu ar gyfer y £20 miliwn y soniwyd amdano eisoes i gynnal gwaith adfywio yn y dyfodol.
29. Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwmo i wario £1.9 miliwn ar bont droed Stryd Thompson ac ar waith i wella'r seilwaith yn ystod y chwarter arloesi.
30. Awgrymodd astudiaeth gwella Swyddfa Archwilio Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005, nad oedd y patrwm ariannu presennol, sef patrwm cylchol blynyddol, o gymorth o safbwynt adfywio, gan y gall prosiectau gymryd blynyddoedd i ddwyn ffrwyth.
31. Ym marn y Cyngor, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel rhan o Gynllun Gofodol Cymru, ymrwmo i 'ddatblygu ac ariannu Cynllun Cyflwyno treigl dros 3 blynedd'
32. Mae denu arian cyhoeddus i ategu arian cyhoeddus yn amlwg yn hanfodol. Yn sgil y dirwasgiad economaidd diweddaraf, mae'n amheus a fydd arian ar gael. Yn y tymor byr a chanolig, gall hyn effeithio ar y buddsoddiad o £250 miliwn gan y sector preifat y disgwylir i Gam 2 o brosiect Glan y Dŵr ei sicrhau dros y 15-20 mlynedd nesaf, ond nid ydym yn credu y bydd hyn yn ergyd farwol i'r prosiect o ran ei ddichonadwyedd nac o ran y gallu i'w roi ar waith.
33. Bydd Cam 2 Prosiect Glan y Dŵr y Barri yn gwella ansawdd yr amgylchedd trefol yn arw ac roeddem yn hynod falch o glywed y bydd yn enghraifft dda o ran arfer gorau amgylcheddol. Clywsom fod achos busnes o blaid datblygu'r marina'n cael ei ystyried ar hyn o bryd ac y byddai'n un o benderfyniadau'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio yn y dyfodol.

Defence Technical Academy a Metrix

34. Mae'r Barri mewn sefyllfa arbennig o dda i elwa o'r datblygiadau yn Saint Athan yng nghyswllt y Defence Technical Academy a pharc aerofod Llywodraeth Cynulliad Cymru, a fydd yn creu tua 2,000 o swyddi. Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn ystyried bod y Barri yn rhan o'r ardal strategol hon ac y gallai fod â rhan bwysig yn y

datblygiadau oherwydd ei rôl fel anheddiad o bwys yn Ne-ddwyrain Cymru. **Rydym yn annog y Cyngor i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Bwrdd Gwasanaeth Lleol a phartneriaid eraill i wneud cymaint ag y gallant i sicrhau bod y dref yn elwa ar fanteision cymdeithasol ac economaidd ehangach y datblygiad hwn.**

Adfywio yng Nghymru yn y dyfodol

35. Ar 14 Hydref, cyflwynodd y Dirprwy Weinidog dros Adfywio Ddatganiad Llafar yn y Cyfarfod Llawn am Adfywio Strategol. Dywedodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i weld awdurdodau lleol yn ymrwymo i sicrhau bod 'gwaith adfywio cyfannol' yn cael ei gynnwys fel un o amodau ariannu prosiectau adfywio.
36. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i fabwysiadu agwedd fwy strategol a chyfannol tuag at adfywio. Edrychwn ymlaen at glywed y newyddion diweddaraf am fenter JESSICA a'r asesiad o'i effaith bosibl ar Gymru.
37. Yn ei ddatganiad, amlinellodd y Dirprwy Weinidog hefyd y ffactorau allweddol a fyddai'n cael eu hystyried wrth nodi Ardaloedd Adfywio Strategol yn y dyfodol. **Credwn fod y Barri yn bodloni'r meini prawf a amlinellodd y Dirprwy Weinidog yn ei ddatganiad ar adfywio strategol a bod ymdrechion a llwyddiant pobl y Barri yn golygu bod y dref yn haeddu cael ei hystyried o ddifrif ar gyfer cymorth yn y dyfodol.**

Casgliad

38. Wrth osod ein hadroddiad gerbron y Cynulliad a chyhoeddi ein hargymhellion, dymunwn ddatgan y bydd ein diddordeb yn y mater hwn yn parhau. Yr ydym felly wedi penderfynu ymgymryd ag ymchwiliad craffu dilynol tua diwedd 2009 i fesur y cynnydd a wnaed.

Crynodeb o'r argymhellion

- Rydym yn argymhell y dylai'r Cyngor ofyn am gyngor gan swyddogion Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yng nghyswllt paratoi ceisiadau am arian gan y Rhaglen Cystadleurwydd.
- Rydym yn annog y Cyngor i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Bwrdd Gwasanaeth Lleol a phartneriaid eraill i wneud cymaint ag y gallant i sicrhau bod y dref yn elwa ar fanteision cymdeithasol ac economaidd ehangach y datblygiad hwn.
- Credwn fod y Barri yn bodloni'r meini prawf a amlinellodd y Dirprwy Weinidog yn ei ddatganiad ar adfywio strategol a bod ymdrechion a llwyddiant pobl y Barri yn golygu bod y dref yn haeddu cael ei hystyried o ddifrif ar gyfer cymorth yn y dyfodol.

Atodiadau

Atodiad 1 – Y Ddeiseb

We, the undersigned, being business and community leaders of the Town of Barry, declare that the Greater Barry Regeneration Programme should receive continuity and surety of proper adequate and timely funding for the next 10 years in order to continue investing for the future, and continue the good works and improvements made to date. The National Assembly for Wales is the beneficiary of revenue from the sale of land at Barry Waterfront, in the region of £60 million and we believe should commit to reinvest a large proportion of that money in Barry.

The petitioners therefore request that the National Assembly for Wales enable the Barry community to take ownership of its future, by setting it free from the cyclical nature of uncertain, centrally driven, grant funding competitions that do not empower local solutions to local problems, and enables a long term funding commitment solution which is commensurate with the monies to be received by the National Assembly for Wales through the sale of land at Barry Waterfront.

Atodiad 2 – Tystiolaeth Ysgrifenedig

8 Hydref 2008

<http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?ds=10%2F2008&submit=Submit>

5 Tachwedd 2008

<http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm>

Atodiad 3 – Cofnod y Trafodion

8 Hydref 2008

<http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=101247&ds=10/2008>

5 Tachwedd 2008

<http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=105154&ds=11/2008>

Atodiad 4 – Gohebiaeth Berthnasol


106

Ieuan Wyn Jones AC/AM
Dirprwy Brif Weinidog /Deputy First Minister



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref DFM/00776/08



20 MAY 2008
APSD

Val Lloyd AM
Petitions Committee
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

14 May 2008

Dear Val

Thank you for your letter dated 15 April 2008 regarding Pride in Barry.

My Department and, previously, the former Welsh Development Agency, have invested heavily in the regeneration and redevelopment of Barry over many years.

The Barry Joint Initiative, a partnership established between Associated British Ports (ABP), my Department (including the former WDA) and the Vale of Glamorgan Council, has supported a range of significant regeneration activities in Barry since the early 1990's. These programmes have not only helped provide a secure future for Barry, but have also created a platform for the town to potentially secure an additional £250 million of private sector investment over the coming years. A significant sum, in excess of £49m, has been invested by/via the partnership in Barry to date.

The legal agreements in place determine how the proceeds from the sale of the Barry Waterfront land are shared between ABP and the Welsh Assembly Government. In simple terms, the distribution of receipts is based upon the total investment made by each partner into the project.

Between 1994 and 2006, a total of approximately £14.5 million was received by the WDA/Welsh Assembly Government from the sale of land at Barry Waterfront. In September 2007 the exchange of contracts for the sale of the remaining land at Waterfront 2 took place between ABP and the selected development consortium. The sales particulars of the site are the subject of a specific confidentiality clause between ABP and the developers. This should be viewed within the context of the significant expenditure that has been required to create the Barry Waterfront 'opportunities'. The Assembly Government has received a part payment and will receive a further share of

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA


English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs • Fax 029 2089 8198
PS.DeputyFirstMinister@wales.gsi.gov.uk

proceeds in due course, upon the granting of planning consent for the development of Waterfront 2 or upon the three year anniversary of the 21 September 2007.

For your general information, the self generated receipts that accrue from the sales of land and property are normally re-invested into the economic development and regeneration priorities that my Department is charged with delivering across Wales, which vary according to project needs and timescales. Such receipts fund an important portion of the DE&T expenditure budget each year and this funding framework is typical of the arrangements within which most Government Departments, local authorities and other public bodies operate.

To illustrate the point, my Department's commitment to the redevelopment of Barry Waterfront and the regeneration work that we are undertaking elsewhere in Barry has already been financed by the proceeds of land sales achieved elsewhere in Wales. If receipts were only used to fund projects in the towns from which the revenues were originally generated, this would not only have a detrimental impact on our ability to flexibly apply resources and funds to the locations and projects where they are most needed and effective, but would also disadvantage the less prosperous and lower value areas of Wales.

With regard to the petition presented by Pride in Barry, I am able to provide reassurance that the regeneration needs and opportunities in Barry will continue to be discussed through the existing partnership arrangements and via the Local Service Board. However, funding availability will, as always, be determined through the established Welsh Assembly Government business planning and usual budgetary processes.



Ieuan Wyn Jones
Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for the Economy and Transport

Leighton Andrews AC/AM
Y Dirprwy Weinidog dros Adfywio
Deputy Minister for Regeneration



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref JH/HB/ML
Ein cyf/Our ref LA/00213/08

Jane Hutt AM
National Assembly For Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

30 September 2008

Dear Jane,

Thank you for your letter dated 29th August, which we discussed when we met on 18th September. I am glad that you have come to me directly to discuss these issues.

Firstly, let me confirm that there is no commitment to 12 regeneration areas. The internal spending review that I have been undertaking is aimed at bringing forward proposals to deliver holistic regeneration proposals in specific locations, against agreed budgets and timescales. This is in line with One Wales commitments.

My officials will continue their dialogue with officers of the Vale of Glamorgan Council to discuss potential future holistic regeneration areas within the Vale. We should not lose sight, however, of the significant expenditure that has taken place within the Vale in recent years, with around £50m having already been spent by the regeneration partners within the Greater Barry Area and a very considerable ongoing Welsh Assembly Government human resource and financial commitment to delivering the St Athan project. You will be aware that I visited Barry last year at the invitation of John Smith MP.

Investment by my Department is continuing over the next two years with circa £1.9m allocated to Barry to allow a number of identified priority projects to proceed, namely the Thompson Street footbridge (£600k), the Health Centre Access Road (£300k) and the works to safeguard and make ready the former Pump House at Barry Waterfront, where we are providing a funding contribution of £1 million to match the input from the Council. These are very significant sums, particularly when considered in the context of the overall regeneration budget available to my Department and it is therefore essential that the funding allocated to the Vale of Glamorgan is defrayed on these key projects in strict accordance with the timescales that have been discussed with the Council.

Additionally, you will be aware of our continuing support for Communities First in Barry, with a new three-year programme of investment due to commence in April next year.


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs • Fax 029 2089 8129
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk
Printed on 100% recycled paper

Based on our experience in the Heads of the Valleys and Mon a Menai, we know that a successful regeneration programme relies heavily on the strength of the partnership that can be forged between the Welsh Assembly Government and the respective local authority, with a clear resolve needed by the Council in particular to make difficult and timely decisions to ensure that projects are delivered to programme. It is of course open to the Vale of Glamorgan County Borough Council to bring to me any proposals which they have for Barry in the future.

In the meantime, as agreed in our meeting, I look forward to visit Barry with you in the near future. Should you require to you may contact Paul O'Donovan, Head of Regeneration South East on 01443 845856 or paul.odonovan@wales.gsi.gov.uk to discuss any issues or concerns around current commitments to Barry.

Yours ever,


Leighton Andrews AM
Deputy Minister for Regeneration

Cllr. Richard Bertin

01446 736227

01446 736227

RB/JB

rjbertin@valeofglamorgan.gov.uk

The Chair,
Enterprise & Learning Committee,
The National Assembly for Wales,
Cardiff Bay.
CF99 1NA

Dear Chair,

BARRY REGENERATION AID

As I am unable to attend the public meeting in Barry on the 8th October I would like to make written representation on why I feel that a large proportion of the revenue received by the Assembly from the development of Barry Waterfront should be reinvested in regeneration projects within the town.

Having considered this matter, I am of the opinion that Barry should take receipt of at least part of this money as it has high pockets of deprivation in an area which is often seen as very affluent. Failure to do this would not help the local economy, would not enable the town to continue to grow and prosper and would not provide aid for the much needed improved economic, social and health services for the area.

I would request that you take this into account when considering this matter and ask that you put back some of the money into the area it is coming from.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink that reads "Richard Bertin." The signature is written in a cursive style and is positioned above a horizontal line that extends to the right.

Councillor Richard Bertin
Member for Court Ward
www.richardbertin.com

33 Maes-y-Cwm St, Barry. CF63 4EJ

Atodiad 5 – Gwybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Yn ystod ein sesiwn graffu gyda Gweinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru, bu iddynt ymgymryd â darparu gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor:

- Gwybodaeth yn datgan a yw Llywodraeth Cynulliad Cymru neu Chyngor Bro Morgannwg wedi gwneud cais am arian cystadleurwydd er mwyn buddsoddi mewn adfywio yn y Bari.
- Rhestr eiddo yn nodi faint o dir ym mherchnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd ar gael i'w adfywio yn y dyfodol.

Atodir yma llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth n ymateb i'r pwysntiau uchod. Hefyd ceir nodyn pellach ar yr un materion gan Gyngor Sir Bro Morgannwg.

Ieuan Wyn Jones AC/AM
Y Dirprwy Brif Weinidog /Deputy First Minister



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MB/DFM/1260/08

Gareth Jones AC
Cadeirydd
Pwyllgor Menter a Dysgu
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

08 Rhagfyr 2008

Annwyl Gareth

Camau'r Pwyllgor Menter a Dysgu ar 5 Tachwedd 2008

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 5 Tachwedd lle trafodwyd deiseb Balchder yn y Barri, cytunais i a'r Dirprwy Weinidog dros Adfywio roi'r wybodaeth ganlynol i chi: -

- Manylion ynghylch ai'r deisebwyr (Balchder yn y Barri) neu Bro Morgannwg oedd wedi gwneud cais am arian cystadleurwydd i'w fuddsoddi mewn gwaith i adfywio'r Barri;
- Rhestr o faint o dir sydd dan berchnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd ar gael o hyd ar gyfer gwaith adfywio yn y dyfodol.

Gallaf gadarnhau nad yw Balchder yn y Barri na Bro Morgannwg wedi dangos diddordeb mewn cael arian cystadleurwydd ar gyfer gwaith adfywio yn y Barri.

Mae'r atodlen isod yn nodi faint o dir sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y Barri.

Cyngor Bro Morgannwg yw deiliad cyfreithiol y tir a nodir yn y tabl isod, a chafodd ei gaffael gyda chymorth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Caiff unrhyw incwm a geir drwy werthu neu brydlesu'r safleoedd a'r adeiladau ei rannu rhwng y grwpiau ar sail y buddsoddiad a wnaed yn y Gyd-fenter Drefol. Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyfer pob safle i ddiogelu buddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru, a rhaid i Lywodraeth y Cynulliad roi caniatâd cyn i Gyngor Bro Morgannwg gael prydlesu, gwaredu neu newid defnydd.

Rhif Safle	Manylion y Safle	Erwau	Nodyn
1	Treftadaeth Rheilffordd y Barri	1.63	Mae'r pedair llain o amgylch safle canolog, a chawsant eu caffael gyda'r bwriad o sefydlu a gwella canolfan ar gyfer Rheilffordd Stêm Bro Morgannwg
2	Safle Newydd	0.19	
3	Yr Orsaf Rheilffordd	0.11	
4	Panayides	1.24	

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
PS.DeputyFirstMinister@wales.gsi.gov.uk

	Safle Dovey		gyda meddiannaeth o dan drwydded.
8	Tir Ger West Ponds	2.39	Tir a ddefnyddir ar gyfer Cledrau Rheilffordd Stêm a Thirwedd.
11	Hawddfrait gan Railtrack	2.17	Hawddfrait dros Bont Cawsai
14	Llain W1C i'r Gogledd o'r Archfarchnad	2.82	Safle wedi'i gaffael i ymestyn cledrau rheilffordd
15	Cyn Safle Rheilffordd EWS, West Pond	11.76	Safle wedi'i gaffael ar gyfer cyffordd rheilffordd.
18 18A	Cyn Depo EWS	0.82	Safle gyda depo nwyddau diddefnydd ger y brif reilffordd. Potensial datblygu.
19	Tir Ger Rheilffordd Stêm Bro Morgannwg	1.92	Parc Unionlin wedi'i adeiladu
	Cyfanswm Tir wedi'i Gaffael	25.10	Erwau
	<u>Ardal Arloesi</u>		
5	The Pumphouse	5.19	Adeilad rhestredig Gradd II sy'n cael ei hyrwyddo fel Canolfan Gelfyddydau. Bydd angen tua £2m i ddiogelu'r adeilad.
7	Tir i'r Gogledd o Hood Road	4.49	Mae'r safle wedi cael ei ddatblygu'n rhannol ar gyfer Canolfan Sgiliau Busnes a chaiff gweddill y safle ei werthu ar gyfer Canolfan Gofal Sylfaenol i'w adeiladu yn 2009/10.
9	Tir Ger Hood Road	4.00	Safle Sied Nwyddau Hood Road – cysylltiedig â'r prosiect Treftadaeth Rheilffordd. Potensial datblygu ar y tir cyfagos.
10	Tir i'r Gogledd o Powell Dyffryn Way	4.00	Cyn Seidins Rheilffordd wedi'i datblygu'n rhannol ar gyfer Canolfan Hyfforddi Sgiliau
20	Tir Ger Glannau'r Barri (Safle Sied Nwyddau)	2.50	Tir i'r De o'r Sied Nwyddau sy'n cyd-ffinio â'r Glannau II. Potensial datblygu.
	Cyfanswm Tir wedi'i Gaffael	20.02	Erwau
	<u>Canol y Dref</u>		
12	Tir yn cyd-ffinio ag Eglwys Santes Fair	0.02	Tir Amwynder – wedi'i gaffael ar gyfer mynediad i'r Parc Canolog.
13	Tir ar Merthyr Street	0.12	Tir i'w werthu ar gyfer tai fforddiadwy 2009/10
22	Thompson Street, Cyn Glwb	0.15	Safle wedi'i glirio ar gyfer maes parcio yng nghanol y dref i'w redeg gan Gyngor Bro Morgannwg
21	Tir ger Gorsaf Reilffordd	2.84	Safle a gynigir ar gyfer cyfleuster

Swyddfa'r Doc		Parcio a Theithio
Cyfanswm Tir wedi'i Gaffael	3.20	Erwau
<u>Y Glannau</u>		
Tir ger Glannau'r Barri / Ynys y Barri	3.13	Tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Maes Parcio Ceir a Bysiau i ymwelwyr i Ynys y Barri.
Cyfanswm Tir wedi'i Gaffael	3.13	Erwau

Mae'r tir arall sydd gan Lywodraeth y Cynulliad yn y Barri yn cynnwys:

Coed Hayes

Mae'r safle hwn, sydd oddeutu 8.5 erw, ger y fynedfa i Ystâd Fasnachu'r Iwerydd yn y Barri, ac mae wedi'i ddyrannu at ddefnydd cyflogaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae ffordd fynedfa i'r safle, ynghyd â system ddraenio a goleuadau ffordd, wedi cael eu gosod. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith ar y seilwaith er mwyn datblygu'r safle ymhellach.

Cyd-fenter y Barri

Nid yw Cyd-fenter rhwng Cymdeithas Porthladdoedd Prydain a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi trosglwyddo tir Cam II y Glannau i'r Consortiwm Tai hyd yn hyn. Cymdeithas Porthladdoedd Prydain a Llywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am reoli tir y Glannau o hyd, a bydd y teitl yn cael ei drosglwyddo pan geir caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn derbyn taleb cyfalaf ar gyfer ail gam y Glannau drwy'r fenter hon.

Mae'r ardal a elwir "the Mole" yn 7.26 erw o faint acres ac fe'i cedwir er mwyn i Gymdeithas Porthladdoedd Prydain greu marina yn Noc Rhif 01 yn y dyfodol. Cedwir hawliau mynediad "the Mole" ar gyfer adeiladu/gweithredu'r marina, ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda grwpiau sydd â diddordeb er mwyn symud y prosiect yn ei flaen.

Cedwir tir ar Subway Road o dan Gam 1 prosiect y Glannau. Tua dwy erw yw maint y safle ac mae'n cynnwys tir ar gyfer maes parcio, swyddfeydd masnachol ac un uned breswyl a ddifrodwyd gan dân yn ddiweddar. Nid oes bwriad i waredu'r safle hwn yn y dyfodol agos ac felly bydd modd parhau â'r busnes sy'n gweithredu ar y safle.

Cofin
Ieuan

Ieuan Wyn Jones
Y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for the Economy and Transport

**SUPPLEMENTARY EVIDENCE IN RESPONSE TO QUESTIONS ASKED
AT THE ENTERPRISE AND LEARNING COMMITTEE ON 5TH NOVEMBER
2008**

**1. PARAGRAPHS 80-84 (INCL.) OF TRANSCRIPT BY JANE HUTT (AM)
REGARDING THE PLANS IN PROCESS AND THE COMMITMENT TO
THE PLANS IN PROCESS**

1.1 The Vale of Glamorgan Council in its paper (paragraph 8) to the Committee meeting on 8th October 2008 states that:

8.The Barry Regeneration Partnership has adopted a Regeneration Vision for the town and a Strategic Framework for investment underpinned by six beacon projects and a draft 3-year rolling Delivery Plan. The finalisation of the Delivery Plan is currently on hold pending the outcome of the Welsh Assembly Government review of the distribution of regeneration funding across Wales.

1.2 At the time of writing the situation remains unchanged.

**2. PARAGRAPHS 89-90 AND PARAGRAPH 153 OF TRANSCRIPT BY
JEFF CUTHBERT (AM) REGARDING BIDS SUBMITTED BY THE
VALE OF GLAMORGAN COUNCIL FOR FUNDING UNDER THE
COMPETITIVENESS PROGRAMME**

Collaborative Approach

2.1 Since the launch of the Competitiveness Programme in 2007, the Council has sought to maximise opportunities from the funding available. For example, due to the limited funding available from Technical Assistance under the Competitiveness Programme, the Council has worked in collaboration with Cardiff, Newport and Monmouthshire Councils to provide match funding for one post based in Newport City Council. A South East Wales Competitiveness Spatial European Team (SET) Outreach Officer has been appointed. Duties include to foster and encourage collaboration and work with officers based in the central SET team to ensure strategic frameworks and projects maximise opportunities available to Competitiveness areas, for example ensuring appropriate promoting and disseminating of information.

Strategic Projects

2.2 In September 2007 the Council facilitated a meeting with neighbouring authorities in South East Wales to explore opportunities for collaborative EU projects to address unmet need. As a result a number of potential projects are in development. This includes a joint project with Cardiff and Newport to tackle economic inactivity in the labour market. Meetings have taken place with DCELLS, JobCentre Plus and other key training providers to ensure complementarity with strategic projects either approved or under development. A Project Idea has been posted and an Expression of Interest will be registered early December.

Realistic Expectations

2.3 The Council has always recognised that the strategic approach to programming adopted for the current Structural Fund period should ensure we maximise opportunities for strategic projects developed under the Convergence Programme to apply for Competitiveness funding, where funding and eligibility permit. This would allow for EU funding to support strategic delivery of WAG programmes across the whole of Wales whilst maximising economies of scale. Officers have engaged with WAG departments to ensure projects reflect local circumstances and target any proposed new local authority initiatives on potential gaps rather than duplicate existing provision. The very nature of the restricted and limited funding under the Competitiveness Programme compared to Convergence has meant officers wished to ensure realistic and appropriate expectations from the community and avoid wasted effort developing projects which do not have a reasonable chance of success.

Town Centre Renewal

2.4 Since 2000 the regeneration effort in Barry has occurred against the backdrop of diminishing Assisted Area Status and the shift of Welsh Assembly Government and European funding priorities for public investment to the Valleys and West Wales. The lapse and non-replacement of the Welsh Assembly Governments Physical Regeneration Fund has further undermined the regeneration effort in Barry. Furthermore, Priority 5, Theme 1 of the ERDF Convergence Programme deals with the physical regeneration (including town centre renewal) but there is no comparable Priority/Theme in the ERDF Competitiveness Programme. Barry does not qualify for European Funding under Priority 4, Regeneration for Growth, of the ERDF Competitiveness Programme. Under Priority 4 funding is available to regenerate an area, for example through physical improvements to the urban fabric and wider natural environment. To reflect the need to concentrate resources one scheme was selected for North East Wales, one scheme for Central East Wales and two schemes in South East Wales. The two schemes chosen for the South East were Butetown in Cardiff and Pillgwenlly in Newport, which are amongst the highest in Wales according to the overall index of multiple deprivations.

Communities First

2.5 The Welsh Assembly Government Outcome Fund allows Communities First areas in the Convergence Programme to use Convergence funds as match-funding. There is no comparable source of match funding for the Communities First areas of Castleland, Court and Gibbonsdown in Barry under the Competitiveness Programme.

John Maitland-Evans
Chief Executive
2nd December 2008